# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 19EG MAWRTH, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 11 Mawrth 2021)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Annwen Hughes |
| Peredur Jenkins | Mair Rowlands |
| Dyfrig L. Siencyn | Gethin Glyn Williams |
| Dafydd Meurig | Olaf Cai Larsen |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eric M. Jones | Eryl Jones-Williams |
| Dewi Wyn Roberts | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Alwyn Gruffydd |

## Y Blaid Genedlaethol (1)

Y Cynghorydd Peter Read

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Y Cynghorydd Edgar Owen a’r Cynghorydd Simon Glyn

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11eg Chwefror 2021 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig

## 6. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PRIF WEITHREDWR

Ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr.

Pecyn gwybodaeth a ffurflenni cais wedi ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn unig

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 11.02.21**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric M Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Peter Read, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell a Dyfrig Siencyn

**Swyddogion:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Dafydd Meurig yn Gadeirydd am 2020/21**

2. **ETHOL IS GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Is-gadeirydd am y cyfnod 2020/2021**

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd a'r Cynghorydd Gethin Glyn Williams

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

5. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

6. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11.02.20 fel rhai cywir

7. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n**

**gorbwyso hawliau'r unigolion yma . O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## 8. CYFLOGAU PRIF SWYDDOGION

Yn dilyn cais gan yr Aelodau yng nghyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Penodi (Chwefror 11 2020) cyflwynwyd adolygiad o gyflogau Prif Swyddogion gan y Prif Weithredwr.

Yn dilyn trafodaeth drylwyr ar gynnwys yr adolygiad ynghyd a'r opsiynau a gyflwynwyd,

**PENDERFYNWYD**

a) **Derbyn bod angen adolygu rhai cyflogau prif swyddogion ond yn wyneb y ffaith y gallem fod yn wynebu rhewi cyflogau swyddogion o fewn y sector gyhoeddus, gohirio rhoi ystyriaeth ffurfiol i gynnwys adroddiad y Prif Weithredwr hyd nes bydd staff y Cyngor yn derbyn codiad cyflog cyffredinol gan ail ymweld â'r adroddiad yn syth bryd hynny.**

b) **Cynyddu cyflog y Swyddog Monitro ar ei uchafswm i tua £70,000 fel bod modd osgoi risgiau annerbyniol i'r Cyngor, gan adael yr union ffigwr i arfarniad yn unol â'r dull a nodir yn yr adroddiad.**

c) **Hysbysebu swydd Prif Weithredwr ar y telerau presennol**

## 9. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD ail agor y cyfarfod ar gyfer y wasg a'r cyhoedd**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TAL Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi bod dyletswydd statudol ar bob Cyngor i baratoi datganiad polisi tal yn flynyddol. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor wrth fabwysiadu polisi tal ar gyfer 2012/13, roedd disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaliadwyedd y polisi a chyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r polisi tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Adroddwyd nad oedd addasiadau i'r polisi eleni, ond yn unol â chyfansoddiad y Cyngor roedd angen ystyried cynaladwyedd y polisi i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD YN UNOL Â'R ARGYMHELLIAD**

- **Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor ar Fawrth y 3ydd 2021, fel un i'w fabwysiadau ar gyfer 2021/22 yn ddarostyngedig i addasu cyflog y Swyddog Monitro (atodiad 1) yn unol â phenderfyniad 8b uchod.**

## 11. RECRIWTIO A PHENODI PRIF WEITHREDWR

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weithredwr o'i fwriad i ymddeol ar y 31ain o Fawrth 2021, cyflwynwyd adroddiad gan Rheolwr Adnoddau Dynol yn amlygu camau ar gyfer penodi Prif Weithredwr newydd. Amlygwyd, o ran yr amserlen, byddai penodi olynydd erbyn Mawrth 31ain yn rhy uchelgeisiol ac felly, yn dilyn trafodaethau gydag Arweinydd y Cyngor, penderfynwyd anelu at lenwi'r swydd erbyn dechrau mis Mai. Cadarnhawyd bod y Prif

Weithredwr presennol wedi cytuno i barhau â'i swyddogaethau yn rhan amser hyd nes bydd olynydd wedi ei b/phenodi.

Trafodwyd yr amserlen arfaethedig ar gyfer y broses o benodi Prif Weithredwr

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Cynnig addasu dyddiadau oherwydd gwrthdaro gyda phwyllgorau eraill a threfniadau cyhoeddi
  15/04/21 – Cyfweliadau ac argymell ymgeisydd – cynnig 16/04/21
  21/04/21 – Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn – cynnig 23/04/21
- Awgrym i gopi drafft o ddyletswyddau a swydd ddisgrifiad Prif Weithredwr ei gylchredeg i'r Aelodau am sylwadau

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad ynglŷn â threfniadau recriwtio a phenodi Prif Weithredwr a chytuno ar yr amserlen isod**

**24ain o Chwefror – hysbyseb yn ymddangos yn y wasg.**

**11eg o Fawrth – dyddiad cau.**

**19eg o Fawrth – tynnu rhestr fer.**

**Wythnos yn dechrau'r 22ain o Fawrth – Canolfan Asesu (Rhithiol).**

**<u>16eg o Ebrill</u> - Cyfweld ac argymell ymgeisydd i'w penodi**

**<u>23ain o Ebrill</u> – Cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn er mwyn cadarnhau'r penodiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 3pm a daeth i ben am 4:30pm